



Cynllun Bwrsariaeth GIG

Cymru

Teleru ac Amodau

Ar gyfer myfyrwyr sy'n dechrau astudio yn 2021

Fersiwn 3

Cynnwys

Cymalau –

1.	Partïon	3
2.	Cefndir	3
3.	Diffiniadau a Dehongliad	3
4.	Ariannu a Chyrisau Cymwys	4
5.	Meini Prawf y Cynllun	4
6.	Cofrestru	5
7.	Trosglwyddo Cwrs	5
8.	Cwblhau ail Gwrs Addysg Iechyd	6
9.	Cyllido	6
10.	Ymrwymiad i Weithio yng Nghymru am y Cyfnod Gofynnol	7
11.	Cyflogaeth Addas	7
12.	Darpariaethau Ad-dalu	7
13.	Hawl i Newid Eich Meddwl	8
14.	Proses Apelio	8
15.	Force Majeure	9
16.	Cytundeb Cyflawn	9
17.	Amrywiadau	9
18.	Awdurdodaeth	9

Atodlenni

Atodlen 1.	Cyrsiau Addysg Iechyd a Lleoliad y Ddarpariaeth	10
Atodlen 2.	Darpariaethau Ad-dalu	12

Noder fod atodlen 3 ac atodlen 4 wedi'u tynnu oddi ar fynegai

Darllenwch drwy'r Telerau ac Amodau

1. Partïon

- 1.1** Mae hwn yn gontract rhyngddo Chi ("Myfyriwr") ac Ymddiriedolaeth GIG Felindre sydd yn gweithredu drwy Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru ("Felindre").

2. Cefndir

- 2.1** Mae Llywodraeth Cymru, drwy GIG Cymru, yn ariannu addysg a hyfforddiant a gyfer amrywiaeth o Gyrsiau Addysg Iechyd, fel y nodir hynny yn Atodlen 1 y cytundeb yma.
- 2.2** Pwrpas Cynllun Bwrsariaeth GIG Cymru ("y Cynllun") yw darparu cymorth ariannol i'r myfyrwyr sydd yn dilyn Cyrsiau Addysg Iechyd a'u hysgogi i weithio yn y sector gofal iechyd yng Nghymru ar ôl iddynt gymhwyso. Mae'r Cynllun ar gael i fyfyrwyr sydd wedi cael cynnig llefydd ar Gyrsiau Addysg Iechyd yn unol â thelerau ac amodau y Cytundeb.

3. Diffiniadau a Dehongliad

- 3.1. Diffiniadau**
Cytundeb: mae'n golygu y cytundeb hwn a'r Atodlenni atodedig
- 3.1.1 Comisiynwyr:** Cynrychiolwyr o Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru, ar ran Ymddiriedolaeth GIG Felindre yn Uned 2, Llys Chanwod, Parc Nantgarw, Nantgarw, Caerdydd, CF15 7QZ.
- 3.1.2 Cwrs Addysg Iechyd:** Un o'r cyrsiau Cymreig a ariennir fel yn nodir hynny yn **Atodlen 1** y cytundeb yma.
- 3.1.3 Darparwr Cytunedig GIG Cymru:** Darparwr addysg sydd wedi ei gontractio gan Felindre, sydd yn gweithredu drwy NWSSP, i ddarparu Cyrsiau Addysg Iechyd fel yr amlinellir hynny yn **Atodlen 1**.
- 3.1.4 Rhaglen Cyn Cofrestru:** Y cyrsiau hynny a restrir yn **Atodlen 1**.
- 3.1.5 Proffesiwn:** Rôl sydd yn gofyn am y cymhwyster yr ydych wedi astudio ar ei gyfer drwy Gwrs Addysg Iechyd.
- 3.1.6 Darpariaethau Ad-dalu:** Fel y diffinnir hynny yng nghymal 12 y cytundeb yma.
- 3.1.7 Cyfnod Gofynnol:** Fel y diffinnir hynny yng nghymal 10.1 y cytundeb yma.
- 3.1.8 Lliflinio Myfyrwyr:** Y broses a reolir gan SSP er mwyn cynorthwyo cofrestreion newydd i gael swyddi Newydd.
- 3.1.9 Cyflogaeth Addas:** Fel y diffinnir hynny yng nghymal 11 y cytundeb yma
- 3.1.10 Myfyriwr:** Fel y diffinnir hynny yng nghymal 1 y cytundeb yma.
- 3.1.11 System:** Fel y diffinnir hynny yng nghymal 5.1.2 y cytundeb yma.
- 3.2** Mae person yn cynnwys person naturiol, corff corfforaethol neu anghorfforaethol (p'un a oes ganddynt bersonoliaeth cyfreithiol ar wahân neu beidio).
- 3.3** Mae'r Atodlenni yn rhan o'r cytundeb yma a bydd ganddynt yr un grym â phetaent wedi eu cynnwys yn gyflawn yng nghorff y cytundeb yma. Maw unrhyw gyfeiriad at y cytundeb yma yn cynnwys yr Atodlenni.

- 3.4 Oni bai fod y cyd-destun yn gofyn fel arall, bydd geiriau unigol yn cynnwys y lluosog a bydd y lluosog yn cynnwys yr unigol.
- 3.5 Oni bai fod y cyd-destun yn gofyn fel arall, bydd cyfeiriad at un rhyw yn cynnwys cyfeiriad at y rhywiau eraill.
- 3.6 Mae cyfeiriadau at gymalau ac Atodlenni yn gyfeiriadau at y cymalau a'r Atodlenni yn y cytundeb hwn.
- 3.7 Os oes yna wahaniaeth clir ac anghymodlon rhwng y cytundeb a'r Atodlenni, y cytundeb fydd yn flaenllaw.
- 3.8 **Diffinnir y terfyn amser a gyfer ymgeisio ar gyfer cymal ariannu 9.3** fel pan fo'r myfyriwr wedi cyflwyno cais ar-lein am fwrsariaeth ac wedi derbyn e-bost drwy'r system ar-lein yn cadarnhau'r dystiolaeth yr oeddent angen eu darparu.

4. Ariannu a Chyrsiau Cymwys

- 4.1 Mae'r arian sydd ar gael drwy'r Cynllun sydd yn destun telerau ac amodau'r cytundeb yn cynnwys:
 - 4.1.1 Ffioedd dysgu eich Cwrs Addysg Iechyd; a
 - 4.1.2 Bwrsariaeth costau byw, fel y nodir hynny yng Chynllun Bwrsariaeth GIG Cymru (ar gael yn <http://www.nwssp.wales.nhs.uk/student-awards>) yn cynnwys:
 - o grant o £1,000 nad yw'n destun prawf modd;
 - o bwrsariaeth sydd yn destun prawf modd; ac
 - o os yn gymwys, byddwch yn cael cefnogaeth tuag at gostau megis teithio, llety (tra ar leoliad), Gofal Plant, Lwfans Myfyrwyr Anabl, Lwfans Dibynyddion a Lwfans Dysgu i Rien.
 - 4.1.3 Os byddwch yn gymwys, byddwch yn cael mynediad (ar wahân) i fenthyciad myfyriwr gostyngedig; yn ddarostyngedig i Reoliadau Benthyciadau Myfyrwyr.
- 4.2 Mae dinasyddion Iwerddon yn gymwys i'r un pecyn cymorth â gwladolion y DU.
- 4.3 Rhaid i fyfyrwyr o'r UE sy'n dechrau Cyrsiau Addysg Iechyd ar neu ar ôl 1 Awst 2021 fod â statws preswlydd sefydlog neu statws preswlydd sefydlog yn y DU o dan Gynllun Setliad yr UE i fod yn gymwys i gael arian o dan Gynllun Bwrsariaeth GIG Cymru.
- 4.4 Bydd myfyrwyr yr UE sydd eisoes wedi dechrau neu sy'n dechrau Cyrsiau Addysg Iechyd cyn 1 Awst 2021 yn parhau i fod yn gymwys ar gyfer y fwrsariaeth drwy gydol y Cwrs Addysg Iechyd hwnnw

5. Meini Prawf y Cynllun

- 5. Er mwyn ymuno â'r Cynllun a chael mynediad at yr arian fel y nodir hynny yng nghymal 4.1, mae'n ofynnol i chi:
 - 5.1.1 Fod wedi derbyn cynnig am le hyfforddi ar Gwrs Addysg Iechyd; a
 - 5.1.2 Cofnodi eich bwriad i astudio ar Gwrs Addysg Iechyd ar System Gofrestru Addysg Iechyd Cymru Gwasanaethau Dyfarniadau myfyrwyr NWSSP

('System') - <http://www.nwssp.wales.nhs.uk/student-awards> yn unol â chymal 6.1; a

- 5.1.3** O fewn deng wythnos o ddechrau ar y Cwrs Addysg Iechyd, ymrwymo i weithio yng Nghymru ar ôl cwblhau eich cwrs mewn Cyflogaeth Addas am y Cyfnod Gofynnol (fel y nodir hynny yng nghymal 10.1 y cytundeb hwn).
- 5.2** Os nad ydych yn teimlo y gallwch ymrwymo i'r Cyfnod Gofynnol yma o gyflogaeth Addas, ni fyddwch yn gymwys ar gyfer y Cynllun. Fodd bynnag, byddwch yn dal yn gallu astudio yng Nghymru a byddwch yn gallu cael mynediad at y cymorth canlynol:
 - 5.2.1** Os ydych yn fyfyrwr sydd yn hanu o Gymru ac os nad ydych yn dymuno ymrwymo i weithio yng Nghymru ar ôl cwblhau eich cwrs, bydd gennych fynediad at y pecyn cymorth safonol i fyfyrwyr sydd ar gael gan Gyllid Myfyrwyr Cymru. Ond, os oes gennych eisoes radd gyntaf ac yn ymgymryd â Rhaglen Cyn Cofrestru, nid ydych yn gymwys i wneud cais am fenthyciad myfyrwr graddfa gostyngedig;
 - 5.2.2** Os ydych yn fyfyrwr nad yw'n hanu o Gymru ac nad ydych yn dymuno to ymrwymo i weithio yng Nghymru, byddwch yn dal yn gymwys i astudio yng Nghymru ond bydd angen i chi sicrhau cyllid o ffynhonnell arall. Gallai hynny gynnwys arian gan y corff ariannu perthnasol yn eich gwlad gartref neu hunan-ariannu.

6. Cofrestru

- 6.1** Os ydych yn astudio ar Gwrs Addysg Iechyd, fel y nodir hynny yn **Atodlen 1** y cytundeb yma, mae'n rhaid i chi ymrestru ar y System yn unol â'i thelerau.
- 6.2** Os byddwch yn methu â chofrestru drwy'r System ni fyddwch yn gymwys i wneud cais ar gyfer y Cynllun ac ni fyddwch yn gymwys i wneud cais i gael mynediad at y trefniadau cyllid myfyrwyr.

7. Trosglwyddo Cwrs

- 7.1** Os ydych yn dymuno trosglwyddo'r Cwrs Addysg Iechyd i Brifysgol arall, mae'n rhaid cael caniatâd gan eich Prifysgol a'r Comisiynwyr ymlaen llaw. Os yw'r cwrs newydd yn Gwrs Addysg Iechyd hefyd yng Nghymru, gall yr ariannu barhau.
- 7.2** Os ydych yn dymuno trosglwyddo i gwrs arall yn yr un Brifysgol arall mae'n rhaid cael caniatâd gan eich Prifysgol a'r Comisiynwyr ymlaen llaw. Os yw'r cwrs yn Gwrs Addysg Iechyd yng Nghymru, gall yr ariannu barhau. Os yw'r cwrs yn Gwrs Addysg Iechyd a gomisiynwyd, neu os yw wedi ei leoli y tu allan i Gymru, bydd hynny yn golygu diddymu eich cwrs. Mae myfyrwyr sydd wedi ymrestru ar raglenni cyn-cofrestru BSc israddedig yn gymwys i gael uchafswm o dair blynedd o arian oni bai bod ganddynt amgylchiadau lliniarol a gadarnhawyd gan eu prifysgol. Os byddwch yn newid cwrs ran o'r ffordd drwy eich hyfforddiant ac y byddwch angen mwy na thair blynedd i gwblhau eich hyfforddiant, bydd angen i chi hunan-ariannu'r hyfforddiant ychwanegol sydd ei angen.

8 Cwblhau ail Gwrs Addysg Iechyd

- 8.1** Os ydych wedi ymrestru ar raglenni cyn-cofrestru BSc israddedig rydych yn gymwys i gael uchafswm o dair blynedd o arian oni bai bod gennych amgylchiadau lliniarol a gadarnhawyd gan y brifysgol. Os byddwch yn newid cwrs ran o'r ffordd drwy eich hyfforddiant ac y byddwch angen mwy na thair blynedd i gwblhau eich hyfforddiant, bydd angen i chi hunan-ariannu'r hyfforddiant ychwanegol sydd ei angen.
- 8.2** Petaech, ar ôl cwblhau eich Cwrs Addysg Iechyd cyntaf ("Cwrs Cyntaf") o dan y cytundeb hwn, yn dewis ymgymryd ag ail Gwrs Addysg Iechyd lefel uwch ("Ail Gwrs") o dan y cytundeb yma, bydd yr amodau canlynol yn gymwys:
- 8.2.1** Ar ôl cwblhau'r Cwrs Cyntaf, bydd eich ymrwymiad i weithio yng Nghymru yn cael ei ohirio nes eich bod wedi cwblhau'r Ail Gwrs.
- 8.2.2** Mae'n rhaid i chi ddechrau ar yr Ail Gwrs yn syth ar ôl (h.y. yn y flwyddyn academaidd sydd yn dilyn cwblhau'r Cwrs Cyntaf) i chi gwblhau'r Cwrs Cyntaf;
- 8.2.3** Os, ar ôl i chi gwblhau eich Ail Gwrs, y byddwch yn methu â gweithio yng Nghymru (gweler cymal 10 y cytundeb yma), byddwch yn ddarostyngedig i'r darpariaethau ad-dalu mewn perthynas â'r Cwrs Cyntaf a'r Ail Gwrs fel y nodir hynny yng nghymal 12;
- 8.2.4** Bydd y gohirio yng nghymal 8.2.1 yn dod i ben ar unwaith petaech yn methu cwblhau'r Ail Gwrs a bydd taliad mewn perthynas â'r Cwrs Cyntaf a'r Ail Gwrs yn ddyledus ar unwaith fel y nodir hynny yng nghymal 12.

9. Cyllido

- 9.1** Er mwyn i chi dderbyn y benthyciad myfyrwyr llawn a esbonnir yng nghymal 5.2 (i) byddwch angen cyfeirnod unigryw gaiff ond ei greu gan y System un unig.
- 9.2** Ar ôl i chi wneud cais am arian gan y Cynllun ac ar ôl ei dderbyn, ni fyddwch yn gallu newid eich llwybr ariannu, oni bai fod yna amgylchiadau eithriadol. Mewn amgylchiadau eithriadol, bydd eich cais i newid llwybr ariannu yn cael ei ystyried drwy fecanwaith apêl, yn unol â chymal 14 y cytundeb yma. Ar ôl i chi gwblhau eich Cwrs Addysg Iechyd, byddwch yn rhwymedig i weithio naill ai yng Nghymru am gyfnod o amser sydd yn ddibynnol ar swm y fwrsariaeth yr ydych wedi ei derbyn, neu i ad-dalu swm o'r fwrsariaeth yn unol ag **Atodlen 2**, os byddwch yn dewis gweithio y tu allan i Gymru ar ôl i chi gwblhau eich Cwrs Addysg Iechyd.
- 9.3** Y terfyn amser ar gyfer gwneud cais am arian o dan y Cynllun yw deng wythnos ar ôl cychwyn ar Gwrs Addysg Iechyd.
- 9.4** Os amherir ar eich astudiaethau, bydd eich cytundeb ariannu yn cael ei atal yn ystod yr amhariad, ond bydd yr un trefniant ariannu yn ailddechrau pan fyddwch yn dychwelyd.

10. Ymrwymiad i Weithio yng Nghymru am y Cyfnod Gofynnol

- 10.1** Os ydych yn dewis cael mynediad at arian drwy'r Cynllun, mae'n ofynnol i chi ymrwymo i weithio yng Nghymru mewn Cyflogaeth Addas am y cyfnod sydd yn gymwys i chi isod (mae pob un yn "Cyfnod Gofynnol"):
 - 10.1.1** Cyfnod o ddwy flynedd o fewn tri mis ar ôl i chi lwyddo i gwblhau Cwrs Addysg Iechyd, pan fo'r cwrs hwnnw yn un tair blynedd; neu
 - 10.1.2** Cyfnod o 18 mis o fewn tri mis o lwyddo i gwblhau'r Cwrs Addysg Iechyd, pan fo'r cwrs yn un dwy flynedd;
 - 10.1.3** Os byddwch wedi ymgymryd ag Ail Gwrs, cyfnod o ddwy flynedd o fewn tri mis o gwblhau'r Ail Gwrs yn llwyddiannus.
- 10.2** Mae'n rhaid i chi, drwy'r System, gadarnhau yn electronig, o fewn deng wythnos o gwblhau'r Cwrs Addysg Iechyd, eich ymrwymiad i weithio yng Nghymru ar ôl cwblhau'r Cwrs Addysg Iechyd.
- 10.3** Os, ar ôl i chi gwblhau eich astudiaethau, y byddwch yn methu â gweithio yng Nghymru am y Cyfnod Gofynnol (gweler Cymal 10.1 y cytundeb yma), byddwch yn ddarostyngedig i'r darpariaethau Ad-dalu a nodir yng Nghymal 12 y cytundeb yma.
- 10.4** Os byddwch yn dechrau cyflogaeth yn unol â chymal 11, ond yn methu â chwblhau'r Cyfnod Gofynnol o waith, byddwch yn ddarostyngedig i'r Ddarpariaeth Ad-dalu.

11. Cyflogaeth Addas

- 11.1** Bydd Cyflogaeth Addas yn golygu:
 - 11.1.1** Cyflogaeth yng Nghymru yn y proffesiwn yr ydych wedi eich hyfforddi ar ei gyfer; a
 - 11.1.2** Gweithio yn y gyflogaeth honno am gyfartaledd (all gynnwys mwy nag un rôl Cyflogaeth Addas) o 22.5 awr yr wythnos, oni bai fod yna amgylchiadau eithriadol y gellir cytuno arnynt ar sail achosion unigol gyda'r Comisiynywyr.

12. Darpariaethau Ad-dalu

- 12.1** Byddwch yn atebol i ad-dalu elfen o'r arian a ddarperir o dan y Cynllun, neu'r cyfan ohono, yn unol ag **Atodlen 2** i'r cytundeb hwn, o dan yr amgylchiadau canlynol:
 - 12.1.1** Nid ydych yn ymgymryd â Chyflogaeth Addas o fewn tri mis i gwblhau'r Cwrs Addysg Iechyd yn llwyddiannus, ac rydych wedi cymryd rhan lawn mewn cyfleoedd recriwtio a drefnir gan AaGIC a NWSSP
 - 12.1.2** Rydych yn methu â chynnal Cyflogaeth Addas am y Cyfnod Gofynnol ar ôl cwblhau'r Cwrs Addysg Iechyd;
 - 12.1.3** Os canfyddir nad yw eich cyflogaeth, ar ôl cwblhau eich cwrs, yn cydymffurfio ag amodau'r cytundeb hwn;
 - 12.1.4** Gofynnir i chi ad-dalu arian a dalwyd i chi drwy'r Cynllun yn unol â'r telerau ac amodau yma (fel esiampl yn unig, yn unol â chymalau 7.2, 8.2.3, 8.2.4).
- 12.2** Bydd swm yr ad-daliad ar raddfa symudol, a nodir yn **Atodlen 2** i'r cytundeb hwn.

- 12.3** Os byddwch yn ddarostyngedig i Ddarpariaeth Ad-dalu o dan y cytundeb yma, bydd y ddyled yn ad-daladwy yn llawn gennych o fewn tri mis o'ch hysbysu am y ddyled, oni bai bod darpariaethau cymal 12.4 yn gymwys. Eich cyfrifoldeb chi yw ariannu ad-daliad o'r fath.
- 12.4** O dan amgylchiadau eithriadol, gallwch ofyn am gyfnod ad-dalu estynedig. Mae hynny ar yr amod y gofynnir i chi gysylltu ag elusen/sefydliad cwnsela ar ddyled fydd yn gweithio gyda chi er mwyn sefydlu cynllun ad-dalu fforddiadwy. Gelir ystyried y cynllun ad-dalu o dan y broses apeliadau a gellir ei dderbyn, ei ail negodi, neu mewn rhai amgylchiadau, ei wrthod, ac yn yr achos hwnnw bydd yr arian yn ad-daladwy o fewn 3 mis o gael eich hysbysu gennym.
- 12.5** Mae amgylchiadau cyfyngedig lle y gallech fod wedi'ch eithrio rhag ad-dalu'r cyllid (boed yn rhannol neu'n llawn), er y bydd hyn yn ddarostyngedig yn gwbl i bolisi Adolygu ac Apelio AaGIC a gwblhawyd fesul achos. Mae amgylchiadau cyfyngedig o'r fath yn cynnwys y canlynol:
- Cyflogaeth Addas annigonol ar gael yng Nghymru ar ôl i chi orffen eich Cwrs Addysg Iechyd.
 - Salwch yn eich rhwystro rhag gweithio yn y proffesiwn yr ydych wedi hyfforddi ar ei gyfer.
 - Cyfrifoldebau gofalu a newidiodd neu a ddechreuodd yn ystod eich astudiaethau ac a fyddai'n cyfyngu ar eich gallu i weithio yng Nghymru.

13. Hawl i Newid Eich Meddwl

- 13.1** Mae gennych yr hawl i newid eich meddwl a dewis peidio â derbyn y Bwrsariaeth ar yr amod bod hysbysiad ysgrifenedig yn cael ei roi i'r Gwasanaeth Dyfarniadau Myfyrwyr o fewn deg wythnos o ddechrau'r Cwrs Addysg Iechyd. Pan ddarperir hysbysiad o'r fath;
- 13.1.1** Ni fyddir mwyach yn ofynnol i chi ymrwymo i gaffael Cyflogaeth Addas yng Nghymru yn unol â chymalau 10 ac 11; a
- 13.1.2** Ni fydd yn ofynnol i chi ad-dalu'r arian a ddarparwyd o dan y Cynllun yn unol â Chymal 12.

14. Proses Apelio

- 14.1** Os ydych yn anghytuno â phenderfyniad a wnaed gan y Comisiynwyr, mewn perthynas â'r Cynllun mae gennych hawl i Adolygiad ac Apêl fel y'i diffinnir ym maes Polisi Adolygu ac Apelio Bwrsariaeth AaGIC
- 14.2** Mae'r mecanwaith apelio i'w weld ar wefan [AaGIC Bwrsariaeth y GIG](http://www.nwssp.wales.nhs.uk/student-awards) - AaGIC a hefyd ar wefan Gwasanaethau Dyfarnu Myfyrwyr <http://www.nwssp.wales.nhs.uk/student-awards>

15. Force Majeure

- 15.1** Ni fydd unrhyw barti yn torri'r cytundeb hwn nac yn atebol am oedi wrth gyflawni, neu fethiant i gyflawni, unrhyw un o'i rwymedigaethau o dan y cytundeb hwn os yw oedi neu fethiant o'r fath yn deillio o ddigwyddiadau, amgylchiadau neu achosion y tu hwnt i'w reolaeth resymol. Mewn amgylchiadau o'r fath, bydd yr amser ar gyfer cyflawni yn cael ei estyn gan gyfnod sy'n cyfateb i'r cyfnod y bu oedi neu pan fethwyd â chyflawni'r rhwymedigaeth.

16. Cytundeb Cyflawn

- 16.1** Mae'r cytundeb hwn yn ffurfio'r cytundeb cyfan rhwng y Partïon ac yn disodli ac yn diddymu pob cytundeb, addewid, sicrwydd, gwarant, cynrychiolaeth a dealltwriaeth flaenorol rhyngddynt, boed yn ysgrifenedig neu ar lafar, yn ymwneud â'i pwnc.

17. Amrywiadau

- 17.1** Ni fydd unrhyw amrywiad i'r cytundeb hwn yn effeithiol oni bai ei fod yn ysgrifenedig ac wedi'i lofnodi gan y Partïon (neu eu cynrychiolwyr awdurdodedig).

18. Awdurdodaeth

- 18.1** Bydd y Cytundeb yma yn cael ei reoli gan ac yn cael ei ddehongli yn unol â Chyfraith Cymru a Lloegr, fel mae'n gymwys i Gymru, ac mae pob parti yn cytuno yn ddi-droi'n-ôl y bydd gan lysoedd Cymru a Lloegr awdurdodaeth egsglwsif i setlo unrhyw anghydfod neu hawliad (yn cynnwys anghydfodau neu hawliadau nad ydynt yn ymwneud â chontractau) fydd yn deillio o, neu yn gysylltiedig â'r cytundeb yma neu ei bwnc neu ei ffurfiant.

Atodlen 1: Cyrsiau Addysg Iechyd a Lleoliad Darparu

1. Rhestr o gyrsiau a ariennir gan Lywodraeth Cymru, drwy GIG Cymru, a'r rhai a asesir fel rhai sydd yn derbyn yr arian llawn o dan y Cynllun, ac sydd felly yn ddarostyngedig i'r ymrwymiad i weithio yng Nghymru ar ôl cwblhau Cwrs Addysg Iechyd.

<u>CWRS</u>	<u>MATH A HYD</u>	<u>DARPARWR PRESENNOL</u>
PROFFESIYNAU PERTHYNOL IECHYD		
Dieteg	BSc – Llawn amser	Prifysgol Fetropolitan Caerdydd Prifysgol Wrecsam
	Dip PG – Llawn amser	Prifysgol Fetropolitan Caerdydd
Therapi Galwedigaethol	BSc – Llawn amser	Prifysgol Caerdydd Prifysgol Wrecsam Prifysgol Abertawe
	BSc – Rhan amser	Prifysgol Wrecsam Prifysgol Abertawe Prifysgol De Cymru
	Dip PG/MSc – Llawn amser	Prifysgol Caerdydd
Gwyddor Barafeddygol	BSc – Llawn amser	Prifysgol Wrecsam Prifysgol Abertawe
Ffisiotherapi	BSc – Llawn amser	Prifysgol Caerdydd Prifysgol Wrecsam
	BSc – Rhan amser	Prifysgol De Cymru
	Dip PG/MSc – Llawn amser	Prifysgol Bangor Prifysgol Caerdydd
Podiatreg	BSc – Llawn amser	Prifysgol Fetropolitan Caerdydd
Therapi Iaith a Lleferydd	BSc – Llawn amser	Prifysgol Fetropolitan Caerdydd Prifysgol Wrecsam
GWYDDONIAETH GOFAL IECHYD: PTP		
Awdioleg	BSc – Llawn amser	Prifysgol Abertawe
Ffisioleg Gardiaidd	BSc – Llawn amser	Prifysgol Abertawe
Peirianeg Glinigol (Adsefydlu a Pheirianeg Feddygol)	BSc – Llawn amser	Prifysgol Abertawe
Radiograffeg Ddiagnostig	BSc – Llawn amser	Prifysgol Bangor Prifysgol Caerdydd
Gwyddor Bywyd – Gwaed, Haint, Cellog a Geneteg	BSc – Llawn amser	Prifysgol Fetropolitan Caerdydd
Niwroffisioleg	BSc – Llawn amser	Prifysgol Abertawe
Meddygaeth Niwclear	BSc – Llawn amser	Prifysgol Abertawe
Ffiseg Radiotherapi	BSc – Llawn amser	Prifysgol Abertawe
Ymarfer yr Adran Weithredol	BSc – Llawn amser	Prifysgol Wrecsam Prifysgol Abertawe Prifysgol De Cymru
Radiotherapi ac Oncoleg	BSc – Llawn amser	Prifysgol Caerdydd
Gwyddor Anadlol a Chwsg	BSc – Llawn amser	Prifysgol Abertawe
NYRSIO A BYDWREIGIAETH		
Oedolion	BSc/BN – Llawn amser	Prifysgol Aberystwyth Prifysgol Bangor Prifysgol Caerdydd Prifysgol Wrecsam Prifysgol Abertawe Prifysgol De Cymru
	BSc/BN – Rhan Amser	Prifysgol Aberystwyth

	(Bwrsariaeth ran amser ar gael ond mae'r rhan fwyaf o fyfyrwyr yn gyflogedig gan y GIG gyda chyllid ôl-lenwi cyflog)	Prifysgol Bangor Prifysgol Abertawe Prifysgol De Cymru Prifysgol Wrecsam
	MSc/PG Dip – Llawn amser	Prifysgol Caerdydd Prifysgol Wrecsam Prifysgol Abertawe Prifysgol De Cymru
Plant	BSc/BN – Llawn amser	Prifysgol Bangor Prifysgol Caerdydd Prifysgol Wrecsam Prifysgol Abertawe Prifysgol De Cymru
	MSc/PG Dip – Llawn amser	Prifysgol Caerdydd Prifysgol Wrecsam Prifysgol Abertawe Prifysgol De Cymru
Iechyd Meddwl	BSc/BN – Llawn amser	Prifysgol Aberystwyth Prifysgol Bangor Prifysgol Caerdydd Prifysgol Wrecsam Prifysgol Abertawe Prifysgol De Cymru
	BSc/BN – Rhan Amser (Bwrsariaeth ran amser ar gael ond mae'r rhan fwyaf o fyfyrwyr yn gyflogedig gan y GIG gyda chyllid ôl-lenwi cyflog)	Prifysgol Aberystwyth Prifysgol Bangor Prifysgol Abertawe Prifysgol Wrecsam
	MSc/PG Dip – Llawn amser	Prifysgol Caerdydd Prifysgol Wrecsam Prifysgol Abertawe Prifysgol De Cymru
Bydwreigiaeth	BSc/BN – Llawn amser	Prifysgol Bangor Prifysgol Caerdydd Prifysgol Abertawe Prifysgol De Cymru
Anabledd Dysgu	BSc/BN – Llawn amser	Prifysgol Bangor Prifysgol Abertawe Prifysgol De Cymru
Nyrsio Gwasgaredig	BSc – Llawn Amser (Mae rhai myfyrwyr yn cael eu cyflogi gan y GIG gyda chyllid ôl-lenwi cyflog)	Prifysgol Bangor Prifysgol Abertawe
Nyrsio o Bell	BSc – Llawn Amser	Prifysgol Bangor
ARALL		
Hylandid Deintyddol a Therapi	BSc – Llawn amser	Prifysgol Caerdydd
Hylandid Deintyddol	Tystysgrif AU – Llawn amser	Prifysgol Bangor Prifysgol Caerdydd
Meddyg Cyswllt	MSc/MPAS – Llawn amser	Prifysgol Bangor Prifysgol Abertawe

Atodlen 2: Amserlen Ad-dalu – Myfyrwyr o'r DU

AMSERLEN AD-DALU YN UNOL Â'R CYTUNDEB ARIANNU YMA DAN GYNLLUN BWRARIAETH CYMRU

		Swm yr Arian sydd yn ad-daladwy ***	
		Cwrs 3 blynedd	Cwrs 2 flynedd
1	Yn cwblhau Cwrs Addysg lechyd ond nid yn gweithio yng Nghymru yn unol â chymalau 10.1, 10.3 a 12.1.2 Telerau ac Amodau'r Fwrsariaeth.	£25,500	£17,000*
2	Gadael Cyflogaeth Addas fel y nodir hynny yng nghymalau 10.4 a 12.1.3 Telerau ac Amodau'r Fwrsariaeth cyn cyflawni'r ymrwymiad cyflogaeth.		
i	Gadael o fewny 6 mis cyntaf	£25,500	£17,000
ii	Gadael ar ôl 6 mis ond cyn cwblhau 1 flwyddyn o wasanaeth	£19,125	£12,750
iii	Gadael ar ôl 1 flwyddyn ond cyn cwblhau 18 mis o wasanaeth	£12,750	£8,500
iv	Gadael ar ôl 18 mis ond cyn cwblhau 2 flynedd o wasanaeth	£8,500	DIM
v	Gadael ar ôl 2 flynedd o wasanaeth	DIM	DIM
3	Trosglwyddo opsiynau ariannu rhan o'r ffordd drwy'r Cwrs Addysg lechyd fel y nodir hynny yng nghymal 9.2 y Telerau ac Amodau		
i	Yn ystod neu ar ddiwedd blwyddyn gyntaf eich Cwrs Addysg lechyd gallwch ddewis i naill ai a) ad-dalu'r swm o £8,500 neu b) gweithio mewn Cyflogaeth Addas yng Nghymru am 8 mis ar ôl cwblhau eich Cwrs Addysg lechyd.	£8,500	£8,500
ii	Yn ystod neu ar ddiwedd ail flwyddyn eich Cwrs Addysg lechyd gallwch ddewis i naill ai a) ad-dalu'r swm o £17,000 neu b) gweithio mewn Cyflogaeth Addas yng Nghymru am 18 mis ar ôl cwblhau eich Cwrs Addysg lechyd.	£17,000	£17,000

Nodwch and yw Atolden 3 neu 4 yn y ddogfen ddiwygiedig mwyach